Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Nodyn Cyngor Technegol 20

## Cynllunio a'r Gymraeg

Hydref 2017

Llun Canolfan y Mileniwm – Croeso Cymru

ISBN digidol 978 1 4734 8244 9 © Hawlfraint y Goron 2017 WG30304

# Cynnwys


Rhan A – Cyngor Polisi 4

1. Cyflwyniad 4

2. Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Gymraeg 7

3. Rheoli Datblygiad 12

4. Arwyddion a Hysbysebion 14

Rhan B – Canllaw Ymarferol 15

Byrfoddau 22

Cyfeiriadau 23


Mae dwy ran i'r ddogfen hon – Rhan A a Rhan B. Mae Rhan A yn darparu cyngor atodol i Bennod 4 Polisi Cynllunio Cymru. Mae Rhan B yn darparu arweiniad sydd ddim yn ragnodol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut gallant roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio.

# Rhan A – Cyngor Polisi

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

1.1.1 Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru (PPW), sy'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau lleol ystyried y PPW, TANau a Chylchlythyrau wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.1.2 Y PPW sy'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru tra bo TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a TAN 23: Datblygu Economaidd yn rhoi cyngor cynllunio manwl y dylid i ddarllen ar y cyd â TAN 20.

### 1.2 Canslo

Mae Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20 "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg" (Hydref 2013) wedi ei ganslo. Mae'r ddogfen ategol, Nodyn Cyngor Technegol 20: Canllaw Ymarfer (Mehefin 2014) hefyd wedi ei ganslo.

### 1.3 Pwrpas y TAN

Pwrpas y TAN hwn yw rhoi arweiniad ynghylch sut gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg trwy'r system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaethau perthnasol eraill.

### 1.4 Y cyd-destun cynllunio

1.4.1 Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn cael ei harwain gan gynlluniau datblygu, gyda chynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu yn sylfaen gadarn ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac apelau. Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal, tra bo Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi'r modd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) ar draws ffiniau, fesul rhanbarth. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Mae gan CDLl, CDS a'r FfDC statws cynllun datblygu os ydynt wedi eu mabwysiadu.

1.4.2 Dylai'r CDLl gael ei baratoi yn unol â:

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015;
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
- rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005;
- polisi Cynllunio Cymru, yn enwedig Pennod 2 ar gynlluniau datblygu;
- llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (2015).

1.4.3 Dylai'r CDLl ganolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Un o'r pynciau y bydd gofyn ei ystyried wrth baratoi CDLl yw sut y bydd y strategaeth a'r polisïau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau.

1.4.4 Mae'n ofynnol o dan Adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004[1] (DCPG) bod awdurdodau cynllunio yn cynnal arfarniad o gynaliadwyedd (AoG) y CDLl ac yn paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r arfarniad hwnnw. Pwrpas yr AoG yw asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol strategaeth a'r polisïau a geir mewn CDLl, a hynny o ddechrau'r broses yn deg.

1.4.5 Mae'n ofynnol o dan Adran 62 DCPG bod yr AoG yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. Mae ofynnol o dan Adran 61 DCPG bod ACLl yn cadw'r materion gellid eu disgwyl i ddylanwadu ar ddatblygiad yr ardal neu ar gynllunio'r datblygiadau hynny dan sylw, gan gynnwys lefel defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. Mae Rhan A, paragraffau 2.3 – 2.6 yn rhoi cyngor manwl ynghylch sut i ddefnyddio'r AoG i asesu effaith bosibl y strategaeth, polisïau a'r dyraniadau yn y CDLl ar y Gymraeg.

1.4.6 Mae'r DCPG yn galluogi creu CDS ar gyfer rhanbarthau, gan gwmpasu nifer o awdurdodau lleol. Paneli Cynllunio Strategol fydd yn gyfrifol am eu paratoi, a chynnal AoG y cynllun, gan gynnwys asesiad o'i effeithiau tebygol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

1.4.7 Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Bydd yn rhaid cynnal AoG y FfDC, a bydd yn cynnwys asesiad o'i effaith debygol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

1.4.8 Mae Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990[2] yn egluro y gellid ystyried effeithiau ar ddefnydd y Gymraeg, cyn belled y bo'n berthnasol i'r cais, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Gall hyn ddigwydd gyda unrhyw gais yn unrhyw ran o Gymru. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

1.4.9 Mae'r system gynllunio'n gweithio yn unol â darpariaethau deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref a deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd arall. Bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 hefyd yn berthnasol o ran y Gymraeg a chynllunio, a dylai penderfynwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau cyfreithiol ehangach.

## 1.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.5.1 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ceir ynddo saith nod llesiant y bydd gofyn i gyrff cyhoeddus penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) geisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol. Un o'r nodau llesiant yw:

**'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'**.

1.5.2 Caiff y nod hwn ei gyflawni trwy "gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden"[3].

1.5.3 Rhaid i ACLl roi ystyriaeth i lesiant wrth baratoi CDLl. Dylai gweledigaeth, amcanion a pholisïau y CDLl fod yn gyson â'r nodau llesiant cenedlaethol, a'r amcanion a blaenoriaethau llesiant lleol, fel y'u gwelir yn y Cynlluniau Llesiant.

## 1.6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1.6.1 Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg. Fel rhan o'r Mesur, cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau cyhoeddus ar ddarparu gwasanaethau, gweithrediadau a llunio polisïau yn Gymraeg.

1.6.2 Mae'n ofyn statudol ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r modd y bwriadant hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (cyfeirir at hyn yn adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006). Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n esbonio sut cafodd y cynigion a ddisgrifir yn y strategaeth eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol honno.

## 1.7 Y Gymraeg

1.7.1 Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan o fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae 19% o'r boblogaeth yn ei siarad[4], er bod llawer mwy o bobl â rhywfaint o allu ynddi neu wrthi'n ei dysgu ar hyn o bryd. Mae cryn wahaniaeth rhwng y gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn y gwahanol gymunedau, yn amrywio o lai na 8% ym Mlaenau Gwent i fwy nag 85% mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd.

1.7.2 Mae nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg wedi eu gosod yn Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050[5]. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i ddarparu cyfleoedd hawdd i'w cyrraedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi fod rhaid creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer hybu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ewyllys da tuag at yr iaith a darparu isadeiledd iaith megis technoleg a deddfwriaeth, ond mae'n ymwneud hefyd â sicrhau dyfodol economaidd a chymdeithasol i gymunedau Cymraeg eu hiaith.

1.7.3 Bydd dyfodol yr iaith ledled Cymru yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau tu hwnt i'r system gynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Er enghraifft, mae creu'r amgylchiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda ac ystod eang o dai o safon yn greiddiol i gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy.

# 2. Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Gymraeg

## 2.1 Ystyried y Gymraeg wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol

2.1.1 Mae'n ofyn statudol ar bob ACLl yng Nghymru baratoi CDLl ar gyfer ei ardal[6].

2.1.2 Mae gofyn i ACLl ystyried y berthynas rhwng strategaeth, polisïau a dyraniadau safleoedd y CDLl ag anghenion a chyfleoedd cymdeithasol a chymunedol, hynny trwy AoG. Mae ystyried effeithiau tebygol y CDLl ar y Gymraeg yn elfen orfodol o'r AoG.

2.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i system wedi'i harwain gan gynllun, lle mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn cael eu gwneud yn unol â chynllun datblygu a fabwysiadwyd oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn gorbwyso[7]. Mae CDLl cyfredol a fabwysiadwyd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud mewn ffordd gyson, rhesymegol a thryloyw.

2.1.4 Dylid ystyried materion pwysig sy'n effeithio ar gymunedau, yr economi a'r amgylchedd wrth lunio CDLl, a'i adolygu ar ôl hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyriaeth annatod ym mhob penderfyniad cynllunio.

2.1.5 Wrth lunio CDLl mae modd asesu effeithiau cronnol posibl datblygiadau ar y Gymraeg. Mae hyn yn gyfle i ystyried effeithiau ar gymunedau lleol ac ardaloedd ehangach y cynllun gyda'i gilydd. At hynny, un o fanteision allweddol system wedi'i harwain gan gynllun yw ei bod yn rhoi sicrwydd a hyder i ddatblygwyr a chymunedau; y ffordd orau o wneud hyn yw ystyried y defnydd o'r Gymraeg wrth lunio'r CDLl.

## 2.2 Cytundeb cyflenwi: Cynllun Cynnwys y Gymuned

Wrth ddechrau paratoi CDLl, mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG). Dylai'r CCG restru'r ffyrdd y gall pobl gyfrannu at y broses o baratoi CDLlau. Bydd awdurdodau cynllunio lleol gwahanol yn cynnal eu CDLlau mewn ffyrdd gwahanol. Bydd gan rai awdurdodau ganran uchel o siaradwyr Cymraeg, ond bydd siaradwyr Cymraeg yn lleiafrif mewn awdurdodau eraill gan ofyn felly am strategaethau cynnwys a chyfranogi gwahanol. Gallai awdurdodau lleol baratoi asesiadau o gydraddoldeb a allai hefyd ddylanwadu ar y ffordd y cynhelir y CCG. Mae'r CCG yn rhoi cyfle i ofyn barn cymunedau am y cydymwneud rhwng yr iaith a diwylliant Cymraeg a pholisïau a chynigion CDLl. Dylai CCG pob ACLl gydymffurfio â'r Safonau Cymraeg cymwys.

## 2.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd

2.3.1 Dylai'r CDLl ystyried y Gymraeg a'r defnydd ohoni o safbwynt eu perthnasedd i ddefnydd tir. Y fecanwaith ar gyfer gwneud hynny yw'r AoG a'r prosesau cysylltiedig ar gyfer asesu safleoedd sy'n cael eu cynnal wrth baratoi'r cynllun. Lle bo'n berthnasol i ddefnydd tir, dylai'r AoG gynnwys asesiad o dystiolaeth o effeithiau strategaeth, polisïau a dyraniadau gofodol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni. Lle bo'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg neu amcanion eraill, gall ACLl asesu a ddylid newid y strategaeth neu a ddylid nodi mesurau lliniaru yn y CDLl.

2.3.2 Mae Rhan B y ddogfen hon yn rhoi canllaw ymarferol manwl sydd ddim yn ragnodol ar sut gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn yr AoG.

## 2.4 Y dystiolaeth – gweledigaeth ac amcanion

2.4.1 Rhaid i CDLl gynnwys gweledigaeth ofodol ac amcanion defnydd tir sy'n seiliedig ar flaenoriaethau lleol a'r sylfaen o dystiolaeth. Mae'r gofyn i CDLlau fod yn 'gadarn' yn golygu y dylent fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref. Bydd gan ACLlau lawer o wybodaeth eisoes ynghylch y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig gwybodaeth ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg a geir o'r Cyfrifiad; nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg; a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

2.4.2 Dylai'r ACLl weithio gyda'i brif randdeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ystyried a oes digon o wybodaeth gyfredol am y Gymraeg. Dylai ystyried hefyd a oes angen cynnal unrhyw asesiadau ychwanegol. Gallai'r asesiadau hynny gynnwys arolygon lleol neu waith ar y cyd ag awdurdodau cyffiniol. Gall yr wybodaeth hon ddylanwadu ar AoG y cynllun a'r penderfyniadau ynghylch opsiynau datblygu strategol; dylai'r fethodoleg a fabwysiedir fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

## 2.5 Opsiynau strategol a'r strategaeth a ffefrir (cyn adneuo)

2.5.1 Yn y cam hwn o'r broses o baratoi cynllun, bydd cyfle i gymunedau a rhanddeiliaid ddylanwadu ar y strategaeth datblygu a defnydd tir tymor hir a ffefrir ac awgrymu newidiadau neu un well, cyn belled â'u bod yn bodloni amcanion y CDLl, eu bod yn gyson â'i weledigaeth a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylai'r AoG sy'n cyd-fynd â'r strategaeth a ffefrir gynnwys cofnod o ganlyniadau'r gwaith arfarnu sydd wedi'i gynnal hyd yma, gan gynnwys rhagweld a gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLl ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

2.5.2 Gallai strategaethau'r CDLl i gefnogi'r iaith gynnwys:

- hyrwyddo treftadaeth a diwylliant lleol;
- cynllunio gwasgariad a maint datblygiad a seilwaith newydd, yn enwedig lle byddai hynny'n helpu'r gymuned i fod yn gynaliadwy;
- cyflwyno datblygiadau tai a chyflogaeth strategol fesul cam;
- nodi ardaeloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol;

- cyfeirio safleoedd strategol i gymunedau lle ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y cânt effaith debygol bositif ar y defnydd o'r Gymraeg;
- datblygu mesurau lliniaru os ydy'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd yr effaith ar y Gymraeg yn debygol o fod yn negyddol.

2.5.3 Yn y cam hwn, dylai'r ACLl ddangos y meini prawf ar gyfer asesu safleoedd a ddefnyddiwyd wrth ddewis safleoedd strategol ac a ddefnyddir hefyd i nodi safleoedd anstrategol yn y CDLl sydd wedi'i adneuo. Dylai adroddiad yr AoG roi manylion asesiad strategol o'r safleoedd sydd ar unrhyw gofrestr o safleoedd. Lle gellir dylid nodi y safleoedd hynny sy'n cymharu'n dda â fframwaith yr AoG ac y gallent gyfrannu at y strategaeth a ffefrir ynghyd â'r rheini nad ydynt yn cymharu cystal. Gellir argymell newidiadau perthnasol i'r cynllun.

## 2.6 Ystyriaethau a pharatoi'r cynllun adneuo

2.6.1 Y cynllun a adneuir yw'r cynllun a fydd ym marn yr ACLl yn un cadarn. Dylai'r wybodaeth sy'n cefnogi'r cynllun fod yn ddigon i esbonio a chyfiawnhau cynnwys y cynllun.

2.6.2 Dylai'r ACLl sicrhau bod y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau tir yn y CDLl a adneuir yn gyson â 'r AoG, fydd wedi ystyried yr effeithau tebygol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai adroddiad yr AoG fod yn ffynhonnell rhagor o dystiolaeth o hyn a dylai gynnwys hefyd esboniad byr o'r modd y mae'r AoG wedi dylanwadu ar y CDLl terfynol.

2.6.3 Gall gwasgariad y twf economaidd effeithio ar gymeriad cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedau. Gallai polisïau sy'n sicrhau bod lefel ac ystod ddigonol o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys safleoedd ac eiddo, i gynnal a datblygu cymunedau lleol ddod â budd hefyd i'r Gymraeg. Mae'r PPW a TANau eraill[8] yn rhoi rhagor o gyngor ynghylch sut y gallai'r system gynllunio gynnal cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu cymysgedd priodol o dai a chyfleoedd gwaith.

2.6.4 Rhaid gofalu nad yw polisïau'r CDLl yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Rhaid i bolisïau cynllunio beidio â cheisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol.

## 2.7 Diffinio ardaloedd

2.7.1 Caiff ACLl ddiffinio yn ei CDLl yr ardaloedd yn ardal ei gynllun lle ystyrir bo'r Gymraeg yn arbennig o sensitif neu arwyddocaol. Rhaid dangos yr ardaloedd hynny ar Fap Cynigion y CDLl a rhaid cefnogi eu pwrpas a'u ffiniau gyda thystiolaeth.

2.7.2 Trwy ddiffinio ardaloedd o'r fath, bydd yr ACLl yn gallu dangos yn glir i gymunedau a datblygwyr lle gall defnydd o'r Gymraeg fod yn ystyriaeth[9]. Byddai hefyd yn dangos yr ardaloedd lle gallai'r ACLl ofyn am fesurau i liniaru effeithiau datblygiad ar y Gymraeg. Bydd diffinio ardaloedd o'r math yma yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r CDLl a'r Cynllun Llesiant Lleol yn mabwysiadu agweddau sy'n ategu eu gilydd.

2.7.3 Bydd priodweddau'r ardaloedd hyn yn debygol o amrywio o ardal un cynllun i'r llall. Ni ddylai ACLl ddibynnu'n unig ar ddata Cyfrifiadau wrth asesu p'un a oes ardaloedd i'w clustnodi yn ardal ei gynllun. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data o safon[10] dylai'r ACLl nodi a ddylai ddiffinio ardal neu ardaloedd. Nid oes gofyn i'r ACLl ddiffinio ardaloedd ond rhaid i unrhyw benderfyniad i'r perwyl hwn fod ar sail dystiolaeth gadarn o ran priodoledd diffinio'r ardaloedd hynny yn ei CDLl.

## 2.8 Lliniaru a gwella

Dylai ACLl yn fuan yn y broses o baratoi cynllun, nodi'r mesurau lliniaru y maent am eu defnyddio i leihau neu ddiddymu effeithiau negyddol posibl yn sgil datblygiad. Yn yr un modd, os yw'r ACLl yn disgwyl mesurau i wella effaith datblygiadau ar y Gymraeg dylid eu nodi yn y CDLl. Gallai mesurau priodol posibl gynnwys cyflwyno polisïau fesul cam sy'n cefnogi cyfeiriad darparu cyffredinol y CDLl, tai fforddiadwy digonol, neilltuo safleoedd cyfan o dai fforddiadwy i ateb gofynion lleol a darparu cyfleoedd gwaith a seilwaith cymdeithasol i gynnal cymunedau lleol[11].

## 2.9 Ardoll Seilwaith Cymunedol ac ymrwymiadau Adran 106

2.9.1 Er mwyn sicrhau bod y mesurau lliniaru yn cael eu defnyddio, efallai y bydd angen defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ac ymrwymiadau adran 106. Yn unol â phob cyfraith gymwys, gan gynnwys Deddf Gynllunio 2008 a Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, gellid cynnwys seilwaith sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg ar restr codi tâl sy'n gysylltiedig â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

2.9.2 Gallai'r CDLl gynnwys mesurau a mecanweithiau i gefnogi defnyddio'r Gymraeg yn unol â phob cyfraith gymwys, trwy ymrwymiadau adran 106.

## 2.10 Monitro ac adolygu'r cynllun

Bydd gofyn i'r ACLl gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn (31 Hydref) ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu, gan nodi i ba raddau y llwyddir i gyflawni'r amcanion defnydd tir a bennir yn y cynllun. Bydd yr AMB yn asesu perthnasedd a llwyddiant y CDLl, monitro perfformiad strategaeth a pholisiau y CDLl a dylai nodi a oes angen newid y cynllun. Dylai fframwaith monitro gael ei gynnwys yn y CDLl a chlustnodi'r prif heriau a rhesymau dros ddiwygio ac addasu polisïau'r CDLl. Gellid cynnwys hefyd ddangosyddion mewn cysylltiad â'r mesurau lliniaru sydd yn y cynllun. Lle gwelir bod amcanion y CDLl yn ategu'r rheini a geir mewn strategaethau eraill, dylai'r monitro roi sylw i dargedau a dangosyddion cyffredin.

## 2.11 Comisiynydd y Gymraeg

2.11.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Y Comisiynydd yw un o'r rheini sy'n cael ymgynghori ar CDLlau, gyda rôl benodol i ystyried effaith cynigion a pholisïau'r CDLl ar y Gymraeg, a hynny'n fuan yn y broses.

2.11.2 Gall ACLlau geisio cefnogaeth y Comisiynydd i gasglu ac asesu tystiolaeth yn y cam cyn adneuo ac at ddiben y gwaith monitro blynyddol. Gallai'r Comisiynydd helpu'r ACLl i ddiffinio'r ardaloedd o sensitifedd neu arwyddocâd ieithyddol.

# 3. Rheoli Datblygiad

## 3.1 Penderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio

3.1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo i system gynllunio sy'n seiliedig ar gynllun, lle mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn cael eu gwneud yn unol â chynllun datblygu wedi ei fabwysiadu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill yn gor-bwyso'r cynllun. Dylai penderfyniadau cynllunio ymwneud â sut y defnyddir y tir yn hytrach nag â hunaniaeth neu nodweddion personol defnyddiwr y tir.

3.1.2 Wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio unigol, gellir rhoi ystyriaeth i effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg lle bo'n berthnasol i'r cais. Nid yw adran 70(2) Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall a rhaid i bob penderfyniad ynghylch cais am ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar yr ystyriaethau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.

3.1.3 Ni ddylid fel rheol cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu gwaith yr AoG a phrosesau dewis safleoedd y CDLl. Cyhyd â bod yr AoG wedi ystyried y Gymraeg, ni fyddai asesu'r effaith yn ystod y broses ymgeisio yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth bellach na'r hyn oedd ar gael wrth baratoi'r CDLl. Fe amlinellir yr unig eithriad i'r rheol hon isod.

## 3.2 Hap-safleoedd

3.2.1 Efallai na fydd union leoliad a maint datblygiadau ar hap unigol yn hysbys ar gam llunio'r cynllun, ond gall ACLlau ystyried maint y cyfraniad ar yr adeg hon ac ystyried a all datblygiadau ar hap effeithio ar ddefnydd y Gymraeg. Dylid asesu graddfa fras datblygiadau ar hap a'u heffaith ar ddefnydd y Gymraeg drwy yr un prosesau AoG â pholisïau a dyraniadau safle'r CDLl.

3.2.2 Dylid asesu ceisiadau i ddatblygu safleoedd ar hap yn erbyn strategaeth a pholisïau cynllun datblygu wedi ei fabwysiadu, a chan roi ystyriaeth i bolisïau cynllunio cenedlaethol priodol. Pan fydd ACLl yn derbyn cais am ddatblygiad mawr ar safle ar hap o fewn ardal wedi ei diffinio fel un ieithyddol sensitif neu arwyddocaol gellid cynnal asesiad o effaith debygol y datblygiad ar y Gymraeg.

3.2.3 Safle ag iddo 10 neu fwy o anheddau, neu datblygiad dros 1,000metr sgwâr neu 1 hectar yw'r diffinaid arferol o ddatblygiad mawr ond mae ACLl yn rhydd i bennu ei ddiffiniad ei hun yn y CDLl ar gyfer y pwrpas yma, yn seiliedig ar dystiolaeth.

## 3.3 Asesiadau o effaith ieithyddol

3.3.1 Yr ACLl fydd yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad ac am ffurf yr asesiad. Y cyfle amlwg i gynnal asesiad yw rhwng unrhyw ymholiad cyn-cynnig-cais a chynnig cais cynllunio. Mae'n ymarfer da i ACLl ymgynghori â'i randdeiliaid gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg wrth benderfynu oes angen cynnal asesiad ac i ddifinio cwmpas a natur yr asesiad. Gellir gofyn am asesiad effaith ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad ond dylai ACLlau ystyried yn ofalus ydy hi'n llesol gofyn am asesiad o ddatblygiadau cyflogaeth, manwerthu neu fasnachol.

3.3.2 Gall tystiolaeth a gasglwyd o'r asesiad effaith ieithyddol fod yn berthnasol i'r cais a gall gyfrannu at benderfynu os oes angen lliniaru neu wella effeithiau ar y Gymraeg.

## 34 Lliniaru a gwella

3.4.1 Mae mesurau lliniaru'n gallu lleihau neu ddiddymu effeithiau andwyol posibl datblygiad ar y Gymraeg, tra bod mesurau gwella yn gallu sicrhau buddion ehangach o'r datblygiad. Dylai'r ACLl nodi yn y CDLl yr amgylchiadau pan fydd yn disgwyl i fesurau lliniaru gael eu defnyddio, gan ddefnyddio canllawiau cynllunio atodol (CCA) i ddarparu manylion. Dylai'r rhain roi gwybodaeth i ddatblygwyr a phenderfynwyr yngyhylch y mesurau sy'n briodol ar gyfer y math o ddatblygiad dan sylw a'i leoliad. Yng nghyswllt datblygiadau mawr ar-hap, gall asesiad effaith nodi mesurau ychwanegol neu sy'n benodol i'r safle.

3.4.2 Bydd yn rhaid i'r caniatâd gynnwys y mesurau lliniaru naill ai trwy amodau[12] neu drwy ymrwymiadau adran 106[13] Mae gofyn i holl amodau ac ymrwymiadau adran 106 – sy'n ymwneud â lliniaru'r effeithiau ar y Gymraeg yr ystyrir bod eu hangen i wneud – y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio ac sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad gydymffurfio â phob cyfraith gymwys[14].

## 4. Arwyddion a Hysbysebion

4.1.1 Gall arwyddion gael effaith weledol drom ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Gall polisïau CDLlau ar arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio hybu darparu arwyddion dwyieithog.

4.1.2 Gellid hefyd roi cyngor manwl ar arwyddion a hysbysebion mewn CCA, er mwyn annog a chefnogi'r ddarpariaeth ddwyieithog. Gellid hefyd annog pobl i gadw enwau traddodiadol Cymraeg ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

# Rhan B – Canllaw Ymarferol

## Diben yr adran

i. Gallai'r adran hon helpu ACLl roi ystyriaeth briodol i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth lunio, monitro ac adolygu CDLlau. Nid yw'r adran hon yn rhagnodol a bwriedir iddi awgrymu ffyrdd ymarferol y gellid ystyried y Gymraeg yn briodol wrth lunio CDLlau, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Fe all yr adran hon hefyd fod o gymorth wrth bennu cwmpas a chynnwys asesiadau o effaith ieithyddol.

ii. ACLlau sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal a dylai eu dull o weithredu barhau i barchu ac adlewyrchu tueddiadau a nodweddion lleol. Mae'r adran hon yn cynnwys canllawiau i ACLlau ar sut y gellid ymgorffori ystyriaethau o ran y Gymraeg yn AoG y CDLl. Mae'r AoG yn broses barhaus sy'n cychwyn ar ddechrau'r broses o lunio CDLl ac yn parhau pan fydd y CDLl yn cael ei fonitro a'i adolygu. Bydd hefyd yn berthnasol i ACLlau sy'n ystyried dynodi ardaleoedd lle mae'r Gymraeg yn sensitif neu arwyddocaol yn y CDLl.

iii. Mae'r adran hon yn rhoi rhestr ddangosol o ddata perthnasol a allai ddarparu tystiolaeth sylfaenol ar y Gymraeg yn ardal y cynllun. Dylai'r ACLl ddadansoddi ac ystyried goblygiadau'r data a datblygu amcanion a pholisïau mesuradwy, priodol.

## Llunio Cynlluniau Datblygu Lleol

iv. Mae'r rhan hon yn nodi cam-wrth-gam sut a phryd y gallai'r ACLl ymgorffori ystyriaeth o'r Gymraeg wrth lunio CDLl.

### Cam 1 – Sefydlu'r llinell sylfaen

1.1 Bydd y llinell sylfaen yn gyfuniad o ddatganiadau, polisïau a data perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn ardal y cynllun. Gall yr Asesiad Llesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol fod yn ffynonellau allweddol o wybodaeth ac fe annogir ACLlau i gyd-weithio gyda, a mainteisio ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Y Cynllun Llesiant Lleol

1.2 Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn paratoi Cynllun Llesiant Lleol, fydd yn cynnwys amcanion lleol ar gyfer ei ardal sydd wedi eu dylunio i wneud y mwyaf o gyfraniad y Bwrdd i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Wrth baratoi CDLl rhaid i'r ACLl roi ystyriaeth i'r Cynllun Llesiant Lleol drwy, er enghraifft, ystyried sut y caiff amcanion sy'n ymwneud â defnydd tir a datblygu eu cyflawni yn yr ardal.

1.3 Wrth baratoi CDLl a chynnal AoG, dylai ACLlau ddefnyddio'r data sy'n bod lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu Asesiad Llesiant Lleol fydd yn darparu trosolwg o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Mae ffynonellau data a thystiolaeth bosib ychwanegol wedi eu rhestru isod.

## Casglu data

1.4 Disgwylir i ACLlau gasglu amrywiaeth o dystiolaeth i ategu strategaeth, polisïau a dyraniadau safle'r CDLl. Gall fod yn addas ac yn ddefnyddiol gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos yn y cam hwn. Gall ffynonellau defnyddiol o ddata ar ddefnyddio'r Gymraeg gynnwys y canlynol:

- Adrannau eraill o fewn yr awdurdod lleol, e.e. Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Comisiynydd y Gymraeg
- StatsCymru, Llywodraeth Cymru
- Prif dystiolaeth e.e. arolygon o breswylwyr, grwpiau ffocws ac ati.

1.5 Gall y dystiolaeth ganlynol fod yn ddangosyddion perthnasol o'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yn ardal y Cynllun:

### Data'r Cyfrifiad

- Nifer y siaradwyr Cymraeg a chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar lefel ardal cynllun, cymuned, adran etholiadol a ward. A oes crynodiadau gofodol lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg?
- Sut mae'r data mwyaf diweddar yn cymharu â 2001, 1991 ac ati? A yw nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu neu'n lleihau neu a ydynt yn sefydlog? Ble mae'r newidiadau mwyaf yn digwydd?
- Ydy patrymau mudo yn effeithio ar nodweddion iaith yr ardal?
- Ydy proffil oedran siaradwyr Cymraeg yn destun pryder?

### Data Arolwg Cenedlaethol Cymru/Arolwg Defnydd Iaith

- Gallu yn y Gymraeg yn ogystal â rhuglder ac amlder siarad Cymraeg ar lefel awdurdodau lleol, ar gael yn flynyddol.
- Sut mae'r data mwyaf diweddar yn cymharu ag arolygon blaenorol? Ydy siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith yn amlach neu'n llai aml? Oes llai neu fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl? Oes llai neu fwy o siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl?
- Ym mha sefyllfaoedd mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith? Ydyn nhw'n ei defnyddio'n gymdeithasol? Ydyn nhw'n ei defnyddio yn y gwaith? Ydyn nhw'n ei defnyddio wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus?

### Strategaethau a mentrau lleol

- Beth yw nodau ac amcanion yr awdurdod ar gyfer yr iaith yn ei Gynllun Llesiant ac yn ei gynlluniau a strategaethau'r Gymraeg?
- Ydy strategaethau'r awdurdod yn gyson â'i gynllun gweithredu ar y Gymraeg?
- Beth yw blaenoriaethau a phrif weithredoedd y Fenter Iaith leol?

**Darpariaeth addysg**

- Faint o blant, a pha gyfran o'r holl blant, sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg?
- Ydy'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ateb yn llawn? Sut mae ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cymharu o ran lleoedd gwag?
- Pa ganran o blant sy'n derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n parhau i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg?
- Ble mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i leoli? Ble mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg? Sut mae'r rhain yn cymharu â datblygiadau tai arfaethedig?[15]
- Beth yw bwriadau'r awdurdod addysg lleol o ran darpariaeth ysgolion newydd neu raglen rhesymoli?
- Faint o bobl sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion?

**Ffactorau economaidd**

- Faint o bobl a amcangyfrifir sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle?
- Beth yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle? A yw'n cael ei defnyddio bob amser, yn aml, yn achlysurol ac ati?
- Beth yw'r sefyllfa bresennol a disgwyliedig o ran cyflogaeth? A yw diweithdra yn broblem benodol i ran arbennig o gymdeithas?
- Oes casgliad o siaradwyr Cymraeg mewn sectorau cyflogaeth penodol?
- Oes mentrau cyflogaeth neu brosiectau adeiladu mawr ar y gweill yn ystod cyfnod y cynllun?

**Cyfleusterau cymunedol**

- Pa weithgareddau a chymdeithasau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?
- A oes cyfryngau lleol cyfrwng Cymraeg e.e. gorsafoedd radio, papurau newydd?
- Ble mae'r cyfleusterau cymunedol sy'n cynnig cyfleoedd i bobl sgwrsio yn Gymraeg? A ydynt mewn lleoliadau hygyrch, cynaliadwy? Beth yw darpariaeth gynlluniedig y fath gyfleusterau yn y dyfodol?

## Cam 2 – Dadansoddi'r data

2.1 Ar ôl casglu data bydd angen eu dadansoddi ac ystyried i ba raddau, a sut, y mae defnydd tir yn effeithio ar ddefnyddio'r Gymraeg a sut y gellir adlewyrchu hyn yn y CDLl. Bydd angen ystyried hefyd a ddylid rhoi'r un pwys ar yr iaith ledled ardal y cynllun neu a fyddai'n fwy priodol ystyried ardaloedd penodol o fewn ardal y cynllun. Gall Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol fod yn adnodd defnyddiol i nodi p'un a yw'r iaith yn fater i ardal gyfan y cynllun ai peidio, drwy fapio'r elfennau hynny o'r sail dystiolaeth sydd â dimensiwn gofodol. Gallai'r ymarferiad hwn helpu ACLlau benderfynu a oes ardaloedd o sensitifedd neu arwyddocâd ieithyddol yn ardal y cynllun.

2.2 Un dasg allweddol ar yr adeg hon yw i'r awdurdod nodi os ydy'r CDLl yn gallu cyfrannu at amcanion ehangach yr awdurdod. Dylid cofio mai'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r amcan yw polisïau CDLl, sy'n ymwneud â defnydd a datblygu tir ac na all gyflwyno ystyriaeth amhriodol nac unrhyw elfen o wahaniaethu yn y broses.

2.3 Bydd rhai neu bob un o'r ffactorau canlynol yn debygol o ddylanwadu ar ddull gweithredu'r ACLl:

- Ydy'r mwyafrif, neu nifer sylweddol o'r boblogaeth, yn siarad Cymraeg o fewn cymunedau yn ardal y cynllun?
- Ydy niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn tyfu neu'n dirywio ar y cyfan?
- Patrymau mudo a phroffil oedran y rhai sy'n symud allan o'r ardal ac i mewn iddi. Faint o bwysau y mae hyn yn eu rhoi ar wasanaethau a seilwaith?

2.4 Gall CDLlau hefyd ystyried pa bolisïau a darpariaethau ar gyfer y Gymraeg a gynhwyswyd mewn cynlluniau datblygu blaenorol yn yr ardal:

- A gyflawnwyd yr amcanion?
- A ddefnyddiwyd polisïau ac a wnaed defnydd priodol ohonynt?
- Pa wersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol a all lywio dull gweithredu'r CDLl?

## Cam 3 – Asesu opsiynau, polisïau, dyraniadau safle'r CDLl ac amcanion AoG y Gymraeg

3.1 Bydd amcan(ion) y CDLl ar gyfer y Gymraeg, a bennwyd yng Ngham 2 uchod, yn rhan o set eang o amcanion y bwriedir i'r CDLl eu cyflawni. Bydd yr AoG fel rheol yn cynnwys asesiad ar sail amcanion cynaliadwyedd penodol, y Gymraeg yn eu plith. Caiff gwahanol agweddau ar y CDLl eu hasesu yn erbyn yr amcanion cynaliadwyedd hyn wrth iddo ymffurfio, gan gynnwys yr opsiynau, y polisïau drafft a'r dyraniadau safle drafft. Fel arfer, byddai'r asesiad hwn ar ffurf matrics sgorio, lle y rhoddir sgôr i effeithiau tebygol y cynigion ar raddfa, a chânt eu hategu gan sylwadaeth sy'n esbonio'r sail resymegol i'r sgôr.

3.2 Disgwylir i'r ACLlau ddiwygio a gwella eu hopsiynau, eu polisïau a'u dyraniadau yn sgil canlyniadau'r broses AoG.

## Opsiynau'r CDLl

3.3 Bydd y strategaeth a ffefrir yn y CDLl yn deillio o gyfres o opsiynau strategol. Bydd yr opsiynau hyn yn nodi lefelau posibl o dwf a lleoliadau allweddol ar gyfer twf. Dylai ACLlau nodi sut bydd pob opsiwn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg. Ceir manylion sut i asesu opsiynau drwy AoG yn adran 6.3 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol[16].

## Polisïau drafft y CDLl

3.4 Mae'r broses o asesu polisïau yn debygol o fod yn un barhaus, a fydd yn ymestyn ar draws proses llunio CDLl. Caiff polisïau drafft sy'n ymwneud â strategaeth y CDLl eu cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir a chaiff polisïau manwl eu datblygu wrth baratoi Cynllun Adneuo. Dylid asesu pob polisi yn erbyn amcanion yr AoG, gydag unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r asesiad yn cael eu cofnodi yn adroddiad yr AoG.

3.5 Gall polisïau allweddol i'w hasesu gynnwys y canlynol:

- Tai
  - maint a lleoliad twf
  - math, maint a daliadaeth y tai a gynigir
  - polisïau tai fforddiadwy a thargedau
  - polisi fesul cyfnod
  - datblygiadau tai ar hap.
- Tir cyflogaeth
  - maint a lleoliad y ddarpariaeth
  - darpariaeth ar gyfer busnesau lleol, busnesau bach a chanolig neu gynlluniau mewnfuddsoddi mawr.
- Cyfleusterau cymunedol a seilwaith addysg
  - lleoliad cyfleusterau arfaethedig a pha mor agos ydynt at ardaloedd preswyl
- Rhwymedigaethau cynllunio
  - defnydd priodol o gytundebau a.106 a/neu rhestr daliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ar gyfer darparu seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.
- Arwyddion
  - anogaeth at arwyddion Cymraeg, er mwyn datblygu'r Gymraeg yn nodwedd weledol yn yr ardal.

3.6 Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn un gynhwysfawr na chyfyngedig. Efallai y bydd ACLlau o'r farn y gallai polisïau eraill effeithio ar yr iaith Gymraeg.

## Dyraniadau safle drafft

3.7 Bydd yr AoG yr opsiynau a pholisïau wedi arwain at lefelau o dwf disgwyliedig sy'n briodol ac yn rhesymol gytbwys rhwng y blaenoriaethau a'r ystyriaethau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer ardal y Cynllun – gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Er mwyn cyflawni dyheadau'r CDLl o ran twf mae'n rhaid i'r awdurdod ddyrannu tir ar gyfer mathau penodol o ddefnydd tir, gan gynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu a chyfleusterau cymunedol.

3.8 Gall ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg fod yn berthnasol yn yn broses o ddewis safleoedd yr ACLl. Er enghraifft, gall fod yn fwy priodol a chynaliadwy mewn rhai ardaloedd ddiwallu anghenion tai drwy un dyraniad tai mawr, wedi'i ategu gan gynllun i'w cyflwyno fesul cam. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, efallai y byddai'n well datblygu nifer o safleoedd llai o faint wedi'u rhannu rhwng nifer o aneddiadau. Bydd maint a daliadaeth anheddau yn ffactorau sy'n cael effaith ar bennu os yw datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr iaith. Yn yr un modd, dylai agwedd yr ACLl tuag at ddyraniadau safle fod yn gyson â'r strategaeth isadeiledd addysg a chyfleusterau cymunedol.

3.9 Er mwyn cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gall fod angen darparu cyfleusterau addas ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch cymunedol. Gall CDLl chwarae rôl naill ai drwy warchod cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli neu ddyrannu er mwyn datblygu cyfleusterau newydd.

## Cam 4 – Mesurau lliniaru

4.1 Ar ôl asesu strategaeth, polisïau a dyraniadau safle'r CDLl yn erbyn amcanion yr AoG, dylai ddod yn amlwg a oes a ble y mae angen mesurau penodol i liniaru effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae Rhan A yn cynnwys canllawiau ar fesurau lliniaru posibl yn adran 3.4.

4.2 Dylid nodi mesurau i liniaru effeithiau croes a mesurau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol yn ystod cam llunio'r cynllun datblygu:

- Drwy amlinellu'r mesurau lliniaru posib ar gam llunio'r cynllun, caiff y datblygwr ei hysbysu o oblygiadau'r mesurau hynny pan ddaw'n fater o lunio cais cynllunio. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gynigion wedi'u costio'n llawn gael eu cyflwyno sy'n golygu bod angen gwneud llawer llai o ddiwygiadau. Mae hyn hefyd o fudd i'r ACLl sy'n gorfod penderfynu ar y cais ac ymdrin â diwygiadau i gynlluniau.
- O safbwynt y gymuned, mae'n golygu na ddylai cynigion cynllunio gael eu cyflwyno iddynt nad ydynt yn rhoi sylw priodol i faterion sy'n ymwneud â'r iaith ac a all, weithiau, arwain at ymgyrchoedd i newid ceisiadau cynllunio yn sylweddol neu eu gwrthod. Gellir sicrhau bod cymunedau yn chwarae rhan fwy adeiladol a chadarnhaol yn y broses o lunio cynlluniau a fydd yn golygu llai o wrthdaro ar gam y cais cynllunio.

4.3 Dylid nodi mesurau lliniaru yn y Cynllun Adneuo, a gellir rhoi manylion pellach mewn CCA. Gallai hyn gynnwys briffiau datblygu safle-benodol.

## Cam 5 – Monitro'r CDLl a diweddaru tystiolaeth

5.1 Ceir canllawiau ar fonitro ac adolygu'r CDLl yn Rhan A, paragraff 2.10 a bydd yn arbennig o berthnasol i'r ACLlau hynny sydd wedi mabwysiadu CDLl.

5.2 Ar ôl mabwysiadu CDLl, mae'n bwysig bod yr ACLl yn rhoi ei fframwaith monitro ar waith er mwyn asesu a yw'r polisïau yn cael eu defnyddio'n briodol ac a ydynt yn cyfrannu at gynnal strategaeth y CDLl.

5.3 Mae'n bwysig bod gan yr ACLl gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae'r gofyn i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir y gellir ei ddatblygu'n rhwydd ar gyfer tai ym mhob ACLl ledled Cymru'n parhau'n un o brif ofynion polisi Llywodraeth Cymru[17]. Felly, mae angen sicrhau bod pob dyraniad yn ddatblygiedig ac yn cyfrannu at y cyflenwad o dir.

5.4 Dylai'r ACLl bob amser sicrhau hefyd bod y sail dystiolaeth yn gyfredol er mwyn gwerthuso a yw'r CDLl yn effeithio ar yr amcanion ai peidio. Gall hyn olygu fod angen cynnal astudiaethau neu ymchwil ar brydiau i gadw'r wybodaeth wedi'i ddiweddaru. Bydd sail dystiolaeth fanwl gywir hefyd yn ddefnyddiol i lunio AMB ac adolygu'r CDLl yn rheolaidd.

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| AoG | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| CCA | Canllaw Cynllunio Atodol |
| CCG | Cytundeb Cyflawni y Gymuned |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CDS | Cynllun Datblygu Strategol |
| CIL | Ardoll Seilwaith Cymunedol |
| DCPG | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |

# Cyfeiriadau


1 Fel y'i diwygiwyd gan Adran 11 o Ddeddf Cynllunio Cymru 2015 www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/section/11/enacted

2 Fel y'i diwygiwyd gan Adran 31 o Ddeddf Cynllunio Cymru 2015 www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/section/31/enacted

3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

4 Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 562,000 o bobl (19% o'r boblogaeth) 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. www.ons.gov.uk/ons/rel/census/cyfrifiad-2011/ystadegau-allweddol-ac-ystadegau-cyflym-ar-gyfer-adrannau-etholiadol-ac-ardaloedd-cynnyrch-yng-nghymru/stb-ystadegau-cyflym-ar-gyfer-cymru–mawrth-2011.html

5 Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg www.gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?lang=cy

6 Adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/section/62

7 Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/section/38

8 Cynllunio Polisi Cymru: www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy Penodau 7 Datblygu Economaidd a 9 Tai www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan2/?lang=cy; TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy, TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy; TAN 23 Datblygu Economaidd www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-23/?lang=cy

9 Gweler Rhan A, paragraff 3.2

10 Gweler Rhan B, paragraff 1.4 am enghreifftiau o ffynonellau posib

11 Mae manylion pellach ar liniaru wedi'u cynnwys yn Rhan A, paragraff 3.4 a Rhan B, cam 4

12 Gweler cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014 The use of Planning Conditions in Development Management www.gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculars/wgc-16-2014/?skip=1&lang=cy

13 Gweler cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97 Planning Obligations www.gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular1397/?skip=1&lang=cy a rhan 11 Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 www.legislation.gov.uk/ukdsi/2010/9780111492390/contents

[14] Yn benodol, Rheol 123 Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 www.legislation.gov.uk/ukdsi/2010/9780111492390/contents

[15] Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3048/contents/made

[16] Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – Ail argraffiad 2015 www.gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy

[17] Gweler Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, 2015 www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan1/?lang=cy